# EIRIOLWR YMWELIADOL PRESWYL

| | |
|---|---|
| TGP Cymru yw un o'r elusen fwyaf blaenllaw yng Nghymru, sy'n cefnogi ac yn cynrychioli plant, pobl ifanc, a theuluoedd sy'n agored i niwed trwy ystod o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu. Ariennir gwasanaethau TGP Cymru gan sawl cyllidwr ac maent yn darparu gwasanaethau ledled Cymru. | tgp CYMRU PLANT A THEULUOEDD CHILDREN AND FAMILIES |

**Adran TGP Cymru:** Gwasanaethau Eiriolaeth

**Yn gyfrifol i:** Arweinydd Datblygu Eiriolaeth Ymweld Preswyl

**Lleoliad a threfniadau gweithio**: Gweithio o gartref, ymweld â chartrefi preswyl i blant yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, lleoliadau i'w cadarnhau trwy drafodaeth mewn cyfweliad. Mae ymweliad fel arfer yn para am awr yn fisol ac yn digwydd ar ôl oriau ysgol. Rydym yn talu amser teithio a threuliau. Bydd pob ymweliad, teithio cysylltiedig ac amser gweinyddol fel arfer yn cymryd hyd at 4 awr y mis. Yn ddelfrydol rydym yn chwilio am bobl a allai fynd ar ymweliadau misol i grŵp o 5 cartref. Gallai hyn fod ar sail un ymweliad yr wythnos, ond bydd yn cael ei drafod yn y cyfweliad.

**Pwrpas y rôl:**
Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth annibynnol ac eiriolaeth i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi plant.

**Atebolrwydd / Cyfrifoldebau**

- Siarad ar ran plant a phobl ifanc a, lle bo modd, eu galluogi i siarad drostynt eu hunain
- Helpu plant a phobl ifanc i ddeall a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau; a chynrychioli eu barn, eu dymuniadau a'u hanghenion i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau – a cheisio atebion am dorri hawliau dynol
- Mynd gyda phlant a phobl ifanc i fforymau gwneud penderfyniadau a sicrhau bod eu barn yn cael ei chynrychioli – gan gynnwys negodi gyda gweithwyr cymdeithasol, uwch reolwyr, cyfreithwyr gofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol eraill ar ran y plentyn / person ifanc
- Cynorthwyo pobl ifanc i archwilio opsiynau, deall hawliau a gwneud cwynion
- Cynorthwyo'r Rheolwr Tîm i asesu allbynnau'r Gwasanaeth yn erbyn y fframwaith o ganlyniadau y cytunwyd arnynt drwy fonitro gweithgarwch a chasglu gwybodaeth briodol gan gynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru i gynnwys cyllid, adrodd, rheoli data a diogelu
- Cydymffurfio â Chod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol
- Hyrwyddo cyfle cyfartal ac ymarfer gwrth-wahaniaethol trwy'r gwaith a wneir yn y swydd
- Rhwydweithio'n briodol gyda chydweithwyr a'r gymuned, gan gynnwys datblygu ymwybyddiaeth o wasanaethau TGP Cymru ymhlith gweithwyr proffesiynol perthnasol

- Ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill sy'n ofynnol yn rhesymol gan y Sefydliad ac sy'n gyson â'r radd.

**Dangosyddion Perfformiad**

- Yn gyfrifol am gyflawni dangosyddion perfformiad a safonau ymarfer allweddol.
- Ansawdd gwasanaeth a chydymffurfiaeth yn erbyn safonau a gofynion statudol, rheoliadol, sefydliadol ac arfer gorau.
- Cyflawni amcanion a thargedau gwasanaeth

**Cyfrifoldeb Rheolwr Llinell (o 31/04/2024)**
0

**Cyfrifoldeb rheoli cyllideb (o 3104/2024)**
£0

**Gradd**
MS6 - cyfradd yr awr £13.69 to £15.03

**Amodau gwaith**

Oriau achlysurol gydag agwedd hyblyg tuag at yr wythnos waith.

Mae ymweliadau â chartrefi fel arfer yn para awr ac yn digwydd yn fisol. Telir amser teithio a threuliau yn ychwanegol. Gall ymweliad misol gan gynnwys teithio ac amser gweinyddol gymryd 4 awr y mis.

Mae angen teithio i wahanol leoliadau ledled Cymru a'r DU hefyd.

**Cymwysterau**

- Cymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a chymunedol neu ddisgyblaeth gysylltiedig fel Iechyd ac Addysg (dymunol)

**Sgiliau a galluoedd / cymwyseddau**

Bydd deiliad y swydd yn gallu:

- Cynhyrchu canlyniadau o ansawdd mewn modd amserol sy'n canolbwyntio ar wasanaeth ac wedi ymrwymo i sicrhau canlyniadau y cytunwyd
- Gweithio'n dda gyda chydweithwyr a phartneriaid a chydnabod gwahanol syniadau, safbwyntiau a chefndiroedd eraill
- Cynllunio a threfnu gwaith a rheoli amser yn effeithiol
- Cyfathrebu'n effeithiol h.y. mynegi gwybodaeth a syniadau mewn modd clir, cryno a chywir; gwrando'n weithredol a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu.
- Bod yn agored i ddulliau a syniadau newydd, ymateb yn gadarnhaol i newid ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd
- Chwilio am gyfleoedd ar gyfer dysgu parhaus a thwf proffesiynol

**Gwybodaeth / Profiad**

| |
|---|
| Bydd deiliad y swydd yn gallu dangos dealltwriaeth gadarn a chofnod o gyflawniad yn y canlynol:<br><br>• Eiriolaeth<br>• Hawliau Plant<br>• Gweithio mewn partneriaeth â phlant / pobl ifanc<br>• Gweithio â phlant / pobl ifanc i nodi sut a chan bwy y dymunant gael eu cynrychioli<br>• Diogelu |
| **Arall**<br><br>• Arddangos gwerthoedd ac ymddygiadau TGP Cymru bob amser a'u hyrwyddo mewn eraill<br>• Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth<br>• Trwydded yrru lawn a mynediad at gludiant *(Mewn rhai amgylchiadau gellir ystyried ymgeiswyr, nad ydynt o ganlyniad i anabledd, yn gallu gyrru.)*<br>• Y gallu i siarad Cymraeg (dymunol) |